



Llywodraeth Cymru Dogfen Ymgynghori

Mynd i'r Afael ag Achosion o Osgoi Ardrethi Annomestig yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 4 Ebrill 2018

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 27 Mehefin 2018

Trosolwg

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gael barn am fesurau a chynigion polisi i fynd i'r afael ag achosion o osgoi ardrethi annomestig yng Nghymru.

Sut mae ymateb

Gellir anfon ymatebion dros e-bost neu eu hanfon yn uniongyrchol at:

Cangen Polisi Trethi Lleol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: LGF1Consultations@gov.wales

Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes gennych ymholiadau am yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost at:

LGF1Consultations@gov.wales
Cangen Polisi Trethi Lleol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Diogelu data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael

ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth. Ni chaiff eich data eu cadw am fwy na thair blynedd

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gweld y data personol y mae Llywodraeth Cymru yn

- eu cadw amdanoch;
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny;
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data;
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu';
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF

Ffôn : 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan : www.ico.gov.uk

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:
Y Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
Cyfeiriad e-bost :
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

TABL CYNNWYS

RHAGAIR GAN YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS GYLLID.....	6
1. CYFLWYNIAD.....	7
2. CEFNDIR	8
<i>Ardrethi Annomestig yng Nghymru.....</i>	<i>8</i>
<i>Tystiolaeth o osgoi talu.....</i>	<i>8</i>
3. GWELLA'R WYBODAETH A DDARPERIR I HELPŲ GYDA CHYDYMFFURFIO	10
i) Gosod rhwymedigaeth ar y sawl sy'n talu ardrethi i roi gwybod am newid yn ei amgylchiadau.....	10
ii) Gosod rhwymedigaeth ar y rheini sy'n talu ardrethi a thrydydd partïon i ddarparu gwybodaeth.....	13
iii) Rhoi'r hawl i awdurdodau lleol archwilio eiddo	14
iv) Awdurdodau lleol i gyhoeddi rhestr o'r rheini sy'n talu ardrethi sy'n derbyn rhyddhadau gorfodol a dewisol.....	15
4. ARDRETHI A RHYDDHAD AR GYFER EIDDO GWAG.....	16
<i>Beth yw pwrpas rhyddhad ardrethi ar eiddo gwag?</i>	<i>16</i>
<i>Gweithgarwch osgoi talu.....</i>	<i>17</i>
<i>Ffyrdd o leihau achosion o osgoi.....</i>	<i>19</i>
ESEMPTIAD ELUSENNOL 'PAN FYDD YN CAEL EI DDEFNYDDIO NESAF'	22
5. RHYDDHAD ELUSENNOL GORFODOL	23
6. RHEOLAU CYFFREDINOL AR ATAL OSGOI	25
7. MESURAU ANNEDDFWRIAETHOL I WELLA CYDYMFFURFIO	26
ASiantaethau'n cydweithio	26
Adnoddau i ymchwilio i achosion o osgoi	27
8. Y GYMRAEG.....	29
9. CASGLIAD	30
10. Y CAMAU NESAF	30
FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD.....	31

RHAGAIR GAN YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS GYLLID

Yn Symud Cymru Ymlaen, gwnaethom nodi ein bwriad i feithrin yr amodau sy'n ofynnol i sicrhau bod ein busnesau a'n cymunedau'n ffynnu. Mae refeniw o drethi lleol yn elfen bwysig o'r cyllid sydd ei angen i gynnal gwasanaethau cyhoeddus ac mae'n hanfodol bod y refeniw yma yn parhau i gael ei gasglu mewn ffordd mor effeithiol ac mor deg â phosibl.

Mae ardrethi annomestig yng Nghymru yn codi dros £1 biliwn y flwyddyn i ariannu gwasanaethau llywodraeth leol a'r heddlu. Mae'r holl refeniw sy'n cael ei godi drwy ardrethi annomestig yn cael ei ailddosbarthu i helpu i dalu am y gwasanaethau rydym i gyd yn dibynnu arnynt - addysg, gofal cymdeithasol, rheoli gwastraff, trafnidiaeth, tai, diogelu'r cyhoedd, amwynderau amgylcheddol a hamdden a mwy. Heb y ffrwd refeniw yma, byddai'r gwasanaethau hyn yn dioddef ac mae'n hanfodol fod pawb yn cyfrannu'n deg.

Fel gydag unrhyw system dreth, mae rhai yn gwneud eu gorau i osgoi eu dyletswydd i dalu ardrethi annomestig. Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o leihau'r cyfleoedd sydd ar gael i osgoi talu ardrethi a helpu sefydliadau i ymchwilio'n fwy effeithiol i achosion. Er mai lleiafrif bychan o'r rheini sydd i fod i dalu ardrethi sy'n ceisio osgoi talu, pan nad ydynt yn cyfrannu eu cyfran deg o'r ardrethi hyn, mae gwasanaethau lleol, y gymuned leol a phawb arall sy'n talu'r ardrethi ar eu colled.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn trafod y syniadau amrywiol sydd wedi cael eu cynnig i mi a allai helpu i fynd i'r afael ag achosion o osgoi talu ardrethi annomestig. Rydym wedi ystyried amrywiaeth eang o dystiolaeth gan gynnwys y dystiolaeth a gasglwyd gan adolygiadau polisi diweddar mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig, yn ogystal â thystiolaeth a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol Cymru a sefydliadau eraill yng Nghymru. Mae'r ymgynghoriad yn trafod sut y gallwn gydbwysu anghenion busnesau ac awdurdodau lleol ond gan weithio'n agos hefyd ag asiantaethau eraill a Llywodraeth y DU i sicrhau gwelliannau. Wrth ystyried unrhyw newidiadau i'r trefniadau presennol, byddwn yn gwneud hynny yn unol ag Egwyddorion Trethi Llywodraeth Cymru o godi refeniw mewn ffordd mor deg â phosibl; bod yn glir, yn sefydlog ac yn syml; cydweithio ac ymwneud; a chyfrannu at nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o greu Cymru fwy cyfartal.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi cyfle i'r rhai sy'n talu ardrethi, cynrychiolwyr busnesau Cymru, sefydliadau proffesiynol, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill i rannu'u barn am y syniadau amrywiol. Rwy'n awyddus i glywed barn bawb ac rwy'n edrych ymlaen at ystyried eich cyfraniadau ar y mater pwysig hwn. Ond, i fod yn glir: er bod yr holl syniadau yn y ddogfen hon yn agored i'w trafod, mae'r brif thema sylfaenol wedi'i sefydlu. Nid yw'n iawn bod ymdrechion y mwyafrif sylweddol i lynu wrth y rheolau a thalu'u trethi yn cael eu tanseilio gan leiafrif sy'n benderfynol o gamfanteisio ar y system neu ei chamddefnyddio. Bydd canlyniad yr ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio'n glir ar wneud y system yn fwy effeithiol, yn fwy teg ac yn llai agored i gael ei chamddefnyddio.

1. CYFLWYNIAD

- 1.1. Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o fynd i'r afael â mater osgoi talu trethi annomestig er mwyn gwella effeithiolrwydd ffynhonnell hanfodol o refeniw ar gyfer gwasanaethau lleol. Bydd lleihau nifer yr achosion o osgoi yn sicrhau bod y baich ardrethi'n cael ei rannu'n deg ymysg y rhai sy'n talu'r ardrethi. Er mai lleiafrif bychan sy'n ceisio osgoi talu'r ardrethi, pan nad ydynt yn cyfrannu'n deg, gwasanaethau lleol, y gymuned ehangach ac eraill sy'n talu ardrethi sy'n dioddef. Mae sicrhau bod yr ardrethi cywir yn cael eu talu hefyd yn rhoi sefydlogrwydd a sicrwydd i'r rhai sy'n talu ardrethi drwy leihau'r risg o wynebu ôl-ddyledion mawr.
- 1.2. Diben yr ymgynghoriad hwn yw cael barn ystod eang o randdeiliaid am nifer o syniadau sydd wedi cael eu hawgrymu i leihau'r nifer o achosion o osgoi. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ein helpu wrth i ni fynd ati i ystyried newidiadau yn y dyfodol i ddeddfwriaeth, i bolisïau ac i arferion gweithio yn arbennig:
- mesurau a all wella'r ffordd y mae gwybodaeth yn cael ei darparu i helpu gyda materion cydymffurfio, i wella cywirdeb a thryloywder;
 - a oes newidiadau y gellid eu gwneud i'r ardrethi a godir ar eiddo heb ei feddiannu, gan gynnwys bod yn gymwys am esemptiadau ac archwilio a yw lefel y rhyddhad yn gydnaws â'i fwriad;
 - ystyried i ba raddau y gellid cysylltu gweithgareddau osgoi â rhyddhad elusennol a ffyrdd o fynd i'r afael â hyn;
 - ystyried sut y gall Llywodraeth Cymru weithio gydag eraill i leihau achosion o osgoi sy'n gysylltiedig â pholisïau ehangach nad ydynt wedi'u datganoli, er enghraifft, cofrestru elusennau a chwmnïau, camddefnyddio'r ddeddf ansolfedd; a
 - mesurau a all annog asiantaethau'r llywodraeth ac awdurdodau lleol i gydweithio i wella'r wybodaeth sydd ar gael a gweithgarwch ymchwilio.

2. CEFNDIR

Ardrethi Annomestig yng Nghymru

- 2.1. Treth leol yw ardrethi annomestig sy'n cael ei chodi ar berchnogion a deiliaid eiddo annomestig er mwyn cael refeniw i dalu am wasanaethau'r heddlu a gwasanaethau llywodraeth leol. Mae yna oddeutu 110,000 eiddo annomestig yng Nghymru, ac mae ardrethi annomestig yn codi dros £1 biliwn y flwyddyn. Ar ôl i'r arian hwnnw gael ei gasglu, mae'n cael ei ailddosbarthu'n llawn i awdurdodau lleol a chomisiynwyr heddlu a throseddu.
- 2.2. Defnyddir dau newidyn i gyfrifo biliau ardrethi annomestig:
- 'gwerth ardrethol' eiddo. Mae hwn yn cael ei bennu gan Asiantaeth y Swyddfa Brisió, sy'n cael ei ailbrisió fel arfer bob pum mlynedd (cynhaliwyd y gwaith ailbrisió diweddaraf ym mis Ebrill 2017); ac
 - Y 'lluosydd'. Caiff hwn ei bennu'n flynyddol gan Lywodraeth Cymru yn unol â deddfwriaeth sylfaenol. Mae'n cynyddu i gyd-fynd â chwyddiant fel arfer. Y lluosydd ar gyfer 2018-19 yw 0.514.
- 2.3. Mae nifer o gynlluniau rhyddhad ar gael sy'n darparu oddeutu £210 miliwn o gefnogaeth i fathau penodol o feddiannydd neu eiddo. Mae nifer fawr o adeiladau hefyd wedi'u hesemptio rhag talu ardrethi. Mae'r rhain yn cynnwys rhyddhad ardrethi busnesau bach, rhyddhad elusennol, esemptiadau ar gyfer eiddo gwag a daliadau amaethyddol ac, yn fwyaf diweddar, rhyddhad ardrethi'r stryd fawr a rhyddhad trosiannol i helpu'r rhai sy'n talu ardrethi yn dilyn yr ymarfer ailbrisió yn 2017.

Tystiolaeth o osgoi talu

- 2.4. Er nad oes modd rhoi amcangyfrif pendant o'r refeniw sy'n cael ei golli oherwydd gweithgarwch osgoi yng Nghymru, mae'r dystiolaeth rydym wedi'i chasglu'n gydnaws â'r dystiolaeth sydd wedi'i disgrifio mewn adolygiadau sydd wedi'u cynnal gan weinyddiaethau eraill. Rydym wedi gofyn i awdurdodau lleol Cymru ddadansoddi systemau bilio i ganfod achosion hysbys ac achosion a amheuir, a chredwn fod y swm rhwng 1% a 2% o'r cyfanswm a gesglir, neu rhwng £10 miliwn ac £20 miliwn bob blwyddyn. Ond, dywedodd sawl awdurdod lleol nad oedd hyn yn adlewyrchu'r holl osgoi sy'n digwydd ac, yn eu barn nhw, dim ond crafu'r wyneb yw hyn.
- 2.5. Dyma'r dulliau osgoi mwyaf cyffredin a nodwyd:
- osgoi ardrethi eiddo gwag drwy gyfnodau mynych o feddiannaeth tymor byr artiffisial neu ffug;

- peidio â hysbysu awdurdodau am newid mewn amgylchiadau a fyddai'n effeithio ar y rhwymedigaeth i dalu ardrethi (megis newid mewn perchnogaeth, meddiannaeth, y defnydd a wneir o'r eiddo, newidiadau ffisegol sy'n codi neu'n lleihau'r gwerth ardrethol);
- elusennau segur a ffug yn berchen ar eiddo neu'n prydlesu eiddo nad yw'n addas ar gyfer eu hanghenion ac sy'n cael budd o ryddhad elusennol;
- y rhyddhad sydd wedi'i roi'n cael ei ddefnyddio'n anonest pan fydd eiddo a fydd yn cael ei ddefnyddio nesaf yn cael ei ddefnyddio'n llwyr neu'n bennaf at ddibenion elusennol; a
- 'masnachu ffenics' - defnyddio is-gwmnïau neu gwmnïau cragen ac osgoi talu ardrethi drwy ddefnyddio esemptiadau ansolfedd.

I raddau llai cafwyd gwybod am achosion o:

- ddefnyddio'r esemptiad yn anonest ar gyfer ffermio pysgod (gan gynnwys ffermio malwod); ac
- osgoi talu ardrethi drwy fynd ati'n fwriadol i wneud eiddo yn un nad oes modd ei feddiannu.

2.6. Mae'r dulliau hyn yn cael eu hesbonio'n fanylach mewn adrannau eraill yn yr ymgynghoriad hwn. Mae rhai o'r dulliau hyn yn dangos lefel arbennig o soffistigedigrwydd gan gynnwys asiantau neu gwmnïau trydydd parti sy'n rhedeg cynlluniau osgoi yn genedlaethol neu ar draws y DU (a elwir yn aml yn gynlluniau 'lliniaru ardrethi') ar raddfa fasnachol yn gyfnewid am gomisiwn neu ffi. Mae'n amlwg fod gan y cyfryw sefydliadau wybodaeth fanwl am hanes cyfraith achosion a'r ddeddfwriaeth sy'n cael eu dyfynnu wrth awdurdodau lleol wrth wneud ceisiadau am ryddhadau neu esemptiadau rhag ardrethi. Mae'r gostyngiad yn yr ardrethi yn effeithio ar gronfeydd y sector cyhoeddus sydd i fod i gefnogi'r rhai sy'n talu ardrethi yn y ffordd briodol ac i annog y defnydd darbodus o eiddo masnachol.

3. GWELLA'R WYBODAETH A DDARPERIR I HELPŲ GYDA CHYDYMFFURFIO

- 3.1. Mae'r adran hon yn ystyried mesurau a all wella'r gwaith o weinyddu ardrethi annomestig, eu tryloywder a chydymffurfio'n gyffredinol â hwy. Mae hyn yn berthnasol iawn ar gyfer dyfarnu rhyddhad gorfodol a chymhwysedd i gael esemptiadau. Mae awdurdodau lleol wedi dweud nad oes ganddynt bob amser wybodaeth na phwerau digonol i herio gweithgarwch osgoi mewn ffordd effeithiol.
- 3.2. Efallai fod rheswm da dros gredu bod rhywun sy'n talu ardrethi wedi darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol neu wedi mynd ati'n fwriadol i gadw gwybodaeth yn ôl. Er y gall awdurdodau lleol ofyn i'r rhai sy'n talu ardrethi am dystiolaeth berthnasol, gall fod yn anodd i awdurdodau benderfynu a ddylent herio ceisiadau am ryddhad neu ymchwilio i gymhwysedd i gael esemptiadau. Hyd yn oed os gwneir ceisiadau'n ôl-weithredol, does dim darpariaeth ddeddfwriaethol sy'n galluogi awdurdodau i wrthod cais wedi'i ôl-ddyddio.
- 3.3. I sicrhau bod y system yn cael ei gweinyddu'n deg ac yn dryloyw, credir y dylai awdurdodau lleol gael pwerau digonol i allu cyflawni'u dyletswyddau'n effeithiol. Ym mis Tachwedd 2015¹ ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar sut y gallai deddfwriaeth yn y dyfodol helpu i leihau achosion o osgoi talu. Roedd yr ymateb yn glir o blaid y tri chynnig a ganlyn. Bwriedir datblygu'r cynigion hyn mewn deddfwriaeth yn ddiweddarach eleni.

i) Gosod rhwymedigaeth ar y sawl sy'n talu ardrethi i roi gwybod am newid yn ei amgylchiadau

- 3.4. Ar hyn o bryd, does dim dyletswydd gyfreithiol ar dalwr ardrethi i roi gwybod i awdurdod lleol am newid yn ei amgylchiadau a all effeithio ar ei atebolrwydd i dalu ardrethi, er enghraifft y perchennog neu'r meddiannydd wedi newid, neu os oes 'newid defnydd' wedi digwydd mewn perthynas â'r eiddo. Yn y rhan fwyaf o achosion, dim ond esgeulustod gweinyddol yw peidio â hysbysu, rhywbeth sy'n cael ei ddatrys yn fuan. Ond, oherwydd diffyg dyletswydd gyfreithiol, mae yna dystiolaeth bod lleiafrif o dalwyr ardrethi'n mynd ati'n fwriadol i gadw gwybodaeth yn ôl os credant y bydd hyn yn eu helpu i leihau neu i osgoi talu'r ardrethi. Un enghraifft gyffredin o hyn yw pan fo meddianwyr sy'n gymwys ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach yn

¹ Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft, 24 Tachwedd 2015
<https://consultations.gov.wales/consultations/draft-local-government-wales-bill-and-explanatory-memorandum>

ymadael ag eiddo ond y perchennog ddim yn rhoi gwybod i'r awdurdod am hyn a'r eiddo felly'n parhau i gael y rhyddhad.

- 3.5. Credwn y bydd gosod dyletswydd gyfreithiol ar y rhai sy'n talu ardrethi i hysbysu'r awdurdod lleol am newid yn eu hamgylchiadau yn helpu i sicrhau y bydd biliau'n fwy cywir, y bydd tryloywder yn gwella ac y bydd y dystiolaeth sy'n cael ei defnyddio wrth ystyried darparu rhyddhadau ac esemptiadau yn gwella. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r awdurdod lleol gynnal archwiliadau diwydrwydd dyladwy er mwyn adlewyrchu'r amgylchiadau diweddaraf wrth ddarparu biliau. Byddai hyn yn arwain at newidiadau mwy amserol mewn atebolrwydd ac yn lleihau achosion o orfod ôl-ddyddio hawliadau am ryddhad neu esemptiadau.
- 3.6. Yn ystod y cyfle deddfwriaethol nesaf, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu creu rhwymedigaeth ar y rhai sy'n talu ardrethi i hysbysu'r awdurdod lleol o fewn 21 diwrnod² am newid yn eu hamgylchiadau a all effeithio ar eu hatebolrwydd. Wedyn, dim ond o ddyddiad y newid mewn amgylchiadau y gellid ôl-ddyddio'r rhyddhad neu'r esemptiad. Gallai hyn leihau nifer yr achosion y mae awdurdodau lleol yn delio â nhw mewn perthynas â chais ôl-weithredol am ostyngiad yn yr ardrethi sy'n dyddio'n ôl sawl blwyddyn.
- 3.7. Byddai dyletswydd i hysbysu yn cysoni'r dyletswyddau sy'n cael eu rhoi ar y rhai sy'n talu ardrethi â'r dyletswyddau sy'n cael eu rhoi ar y rhai sy'n talu'r dreth gyngor. Gan fod rhwymedigaethau tebyg ar y rhai sy'n talu'r dreth gyngor wedi bodoli ers 1992, ni ystyrir bod hyn yn rhoi gormod o faich gweinyddol ar y rheini sy'n talu ardrethi ac ni ystyrir ei fod yn effeithio ar y rheini sy'n talu ardrethi neu'n hawlio rhyddhad yn gyfreithlon.
- 3.8. Byddai cosb sifil³ yn cael ei chodi pan nad yw'r sawl sy'n talu ardrethi'n darparu gwybodaeth, gan fod yn glir nad codi refeniw yw bwriad y gosb. Byddai unrhyw refeniw o'r cosbau sy'n cael eu casglu gan awdurdodau lleol yn cael ei dalu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru yn yr un ffordd â'r arian a gesglir o ardrethi annomestig⁴. Y disgwyl yw mai dim ond mewn nifer bach o achosion y byddai cosbau sifil yn cael eu rhoi lle mae tystiolaeth i awgrymu bod y meddiannydd yn cadw gwybodaeth yn ôl er mwyn osgoi talu ardrethi. Byddai'r gosb yn bodoli fel rhwystr ar gyfer cadw gwybodaeth yn ôl.

² Mae hyn yr un fath â'r amserlen a ganiateir i'r rhai sy'n talu'r dreth gyngor roi gwybodaeth.

³ Ar lefel un ar y raddfa safonol ar gyfer dirwyon am droseddau diannod (£200 ar hyn o bryd) o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982.

⁴ Cronfa Gyfunol Cymru sy'n derbyn yn yr holl arian a gesglir drwy ardrethi annomestig sy'n cael eu casglu gan awdurdodau lleol. Mae'r refeniw'n cael ei ddal mewn cronfa ganolog ac yn cael ei ailddosbarthu i awdurdodau lleol (ar sail maint y boblogaeth oedolion) i'w wario ganddynt ar wasanaethau lleol. Mae Cronfa Gyfunol Cymru yn cael ei harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol ag Adran 132 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

- C1:** Ydych chi'n cytuno y dylai'r rheini sy'n talu ardrethi orfod hysbysu'r awdurdod os bydd eu hamgylchiadau'n newid?
- C2:** Ydych chi'n cytuno bod 21 diwrnod yn ddigon o amser i'r rhai sy'n talu ardrethi hysbysu'r awdurdod lleol am y newid yn ei amgylchiadau?
- C3:** Ydych chi'n cytuno bod cosb sifil ar lefel 1 ar y raddfa safonol (£200 ar hyn o bryd) yn rhesymol ac yn gymesur mewn achosion lle mae'r sawl sy'n talu ardrethi wedi peidio â hysbysu, wedi cadw gwybodaeth yn ôl yn fwriadol neu wedi darparu gwybodaeth ffug yn fwriadol?

ii) Gosod rhwymedigaeth ar y rheini sy'n talu ardrethi a thrydydd partiön i ddarparu gwybodaeth

Wrth gwblhau profion diwydrwydd dyladwy, mae awdurdodau lleol yn defnyddio nifer o ffynonellau gwybodaeth a all gadarnhau rhai ffeithiau am eiddo annomestig, er enghraifft, cadarnhau ar gyfer beth mae'r eiddo'n cael ei ddefnyddio neu gadarnhau pwy yw'r perchennog neu'r meddiannydd. Mae'n cael ei gynnig y dylai awdurdodau lleol allu gofyn am wybodaeth gan y rheini sy'n talu ardrethi a sefydliadau eraill a all fod yn berchen ar ffeithiau am eiddo annomestig fel cwmnïau cyfleustodau, asiantau ardrethu ac asiantau gosod eiddo. Dim ond os yw awdurdod yn credu y byddai hyn yn helpu i gyflawni ei swyddogaeth filio y gellid gwneud cais am wybodaeth. Bydd cosb sifil⁵ yn cael ei rhoi os na fydd yr wybodaeth ofynnol yn cael ei darparu o fewn 21 diwrnod neu os darperir gwybodaeth ffug.

3.9. Ni chredir bod y rhwymedigaeth hon yn gosod baich gweinyddol afresymol ar sefydliadau trydydd parti ac fe'i hystyrir yn gymesur o gofio ei fod er budd y cyhoedd i awdurdodau lleol gadarnhau'r ffeithiau mewn achosion lle mae osgoi talu yn cael ei amau. Yma eto, pwrpas y gosb hon yw atal achosion o osgoi talu yn hytrach na ffordd o godi referniw.

C4: Ydych chi'n cytuno y dylai'r rheini sy'n talu ardrethi a thrydydd partiön orfod darparu gwybodaeth ar gais awdurdod lleol, er mwyn dilysu atebolrwydd i dalu ardrethi.

C5: Ydych chi'n cytuno bod 21 diwrnod yn ddigon o amser i'r rhai sy'n talu ardrethi a sefydliadau trydydd parti allu darparu gwybodaeth y mae awdurdod lleol wedi gofyn amdani am eiddo annomestig?

C6: Ydych chi'n cytuno bod cosb sifil ar lefel 1 ar y raddfa safonol (£200 ar hyn o bryd) yn rhesymol ac yn gymesur mewn achosion lle mae sefydliad wedi cadw gwybodaeth yn ôl yn fwriadol neu wedi darparu gwybodaeth ffug yn fwriadol?

⁵ Ar lefel un ar y raddfa safonol ar gyfer dirwyon am droseddau diannod (£200 ar hyn o bryd) o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982.

iii) Rhoi'r hawl i awdurdodau lleol archwilio eiddo

- 3.10. Nid yw awdurdodau lleol yn gallu mynd i mewn i hereditamentau a'u harchwilio pan allai hynny helpu i weinyddu'r system ardrethi annomestig, Mae'r awdurdod lleol yn gweld na all bob amser gadarnhau ffeithiau na herio hawliadau gan nad yw'n gallu archwilio eiddo er mwyn cynnal y gwiriadau perthnasol fel cadarnhau pwy sy'n meddiannu'r eiddo neu ar gyfer beth mae'r eiddo'n cael ei ddefnyddio. Nodir bod swyddogion prisio'n gallu cynnal archwiliadau er mwyn prisio eiddo annomestig.
- 3.11. Mae'n cael ei gynnig bod pŵer yn cael ei ddarparu i awdurdod lleol archwilio eiddo os yw'n credu bod angen cynnal archwiliad er mwyn cyflawni ei swyddogaethau bilio. Ni fydd yn rhaid cynnal archwiliadau yn y mwyafrif helaeth o achosion. Bydd y ddeddfwriaeth yn darparu trefniadau diogelu priodol, gan gynnwys sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cael caniatâd gan Dribiwnlys yr Haen Gyntaf ac yn rhoi 24 awr o rybudd i'r perchennog neu'r meddiannydd. Byddai cosb⁶ yn cael ei rhoi i unrhyw berson sy'n mynd ati'n fwriadol i darfu ar archwiliad neu i achosi oedi mewn perthynas ag archwiliad.
- C7: Ydych chi'n cytuno bod y trefniadau diogelu sy'n cael eu cynnig (sef cael caniatâd gan dribiwnlys a rhoi 24 awr o rybudd) yn briodol i'r drefn i awdurdodau lleol archwilio eiddo annomestig?**
- C8: Ydych chi'n cytuno bod cosb sifil ar lefel 1 ar y raddfa safonol (£200 ar hyn o bryd) yn rhesymol ac yn gymesur mewn achosion lle mae person yn mynd ati'n fwriadol i atal archwiliad neu i achosi oedi mewn perthynas ag archwiliad?**

⁶ Ar lefel un ar y raddfa safonol ar gyfer dirwyon am droseddau diannod (£200 ar hyn o bryd) o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982.

iv) Awdurdodau lleol i gyhoeddi rhestr o'r rheini sy'n talu ardrethi sy'n derbyn rhyddhadau gorfodol a dewisol

3.12. Bydd tryloywder, tegwch ac effeithiolrwydd ardrethi annomestig yn gwella os yw pwrpas y dreth yn gwbl ddealladwy yn ogystal â phwrrpas y cynlluniau rhyddhad sy'n rhoi cefnogaeth i ddiwydiannau a thalwyr ardrethi penodol. Ar hyn o bryd, mae'n gymharol hawdd i unrhyw un gael syniad rhesymol am werth ardrethol eiddo gan fod gwybodaeth am werthoedd eiddo ar gael ar wefan Asiantaeth y Swyddfa Brisiol. Ond, nid yw gwybodaeth am eiddo sy'n cael rhyddhad ardrethi ar gael yn yr un ffordd.

3.13. Awgrymwyd y byddai cyhoeddi rhestr o'r rheini sy'n elwa o ryddhadau gorfodol a dewisol yn helpu i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o ardrethi annomestig a'r gefnogaeth amrywiol sydd ar gael, er nad yw'n cael ei hawlio bob amser gan y rhai sy'n gymwys. Gallai cyhoeddi'r cyfryw wybodaeth hefyd atal y rheini sy'n talu ardrethi annomestig, pa un a ydynt yn unigolion, yn fusnesau preifat neu yn y sector cyhoeddus, rhag gwneud cais twyllodrus neu anonest am ryddhad. Cafodd cynnig o'r fath ei argymhell gan Adolygiad Barclay⁷ o ardrethi annomestig yn yr Alban.

3.14. Ymysg anfanteision polisi o'r fath yw'r posibilrwydd y bydd mwy yn osgoi talu drwy godi ymwybyddiaeth am y mathau o fusnesau sy'n talu llai o ardrethi. Efallai hefyd y bydd yn galluogi cwmnïau i redeg cynlluniau osgoi i ganfod a thargedu'r rheini nad ydynt yn ymddangos ar y rhestrau cyhoeddedig.

C9: Beth yw manteision ac anfanteision cael awdurdodau lleol yn cyhoeddi rhestr o eiddo sy'n cael rhyddhad gorfodol a dewisol? A fyddai hyn yn gwella lefel y tryloywder a chydymffurfio?

C10: Pa fathau o wybodaeth y dylid, neu na ddylid, eu cyhoeddi?

C11: Beth yw'r materion diogelu data, a sut gellid mynd i'r afael â'r rhain?

⁷ Adroddiad Adolygiad Barclay o Ardrethi Annomestig, Awst 2017.
<http://www.gov.scot/Resource/0052/00523643.pdf>

4. ARDRETHI A RHYDDHAD AR GYFER EIDDO GWAG

- 4.1. Roedd y dystiolaeth a gasglwyd gennym oddi wrth awdurdodau lleol yn dangos mai'r dull mwyaf cyffredin o osgoi talu yw peidio â thalu ardrethi ar eiddo gwag. Mae'r adran hon yn ystyried nifer o syniadau polisi sydd wedi'u hanelu at leihau nifer y gweithgareddau osgoi sy'n ymwneud ag ardrethi a rhyddhad eiddo gwag. Rydym yn ddiolchgar am farn ymatebwyr am y syniadau hyn, y manteision a'r anfanteision, y goblygiadau ymarferol ac effeithiolrwydd yn lleihau achosion o osgoi.
- 4.2. Bydd yr ymatebion i'r adran hon yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu polisi a'r trafodaethau a fydd yn deillio o hynny. Gyda rhai o'r syniadau sy'n cael eu hawgrymu byddai'n rhaid pasio deddfwriaeth sylfaenol. Gellid rhoi eraill ar waith drwy ddiwygiadau i is-ddeddfwriaeth.

Beth yw pwrpas rhyddhad ardrethi ar eiddo gwag?

- 4.3. Nid oes raid i berchennog eiddo gwag dalu ardrethi am y tri mis cyntaf ar ôl i eiddo ddod yn wag (6 mis ar gyfer eiddo diwydiannol). Os bydd eiddo'n dal yn wag ar ôl hynny, bydd yn rhaid talu'r ardrethi'n llawn er mwyn cymell perchnogion i beidio â chadw eiddo'n wag. Bwriad y cyfnod cychwynnol di-dreth yw rhoi egwyl i berchnogion rhag talu ardrethi er mwyn rhoi cyfle iddynt drefnu i farchnata eiddo, gwneud unrhyw addasiadau gofynnol i annog gosod yr eiddo neu i wneud defnydd masnachol o'r eiddo er budd iddo'i hun.
- 4.4. Yn dilyn y cyfnod di-dreth cychwynnol o 3 neu 6 mis, os bydd eiddo wedyn yn cael ei feddiannu am 42 diwrnod (lle mae'r ardrethi'n cael eu talu'n llawn gan y meddiannydd am 42 diwrnod), mae hyn yn gweithredu fel 'ailosod' ac mae perchennog yn gymwys i gael cyfnod arall heb orfod talu ardrethi. Nod y cyfnod ailosod o 42 diwrnod yw sicrhau bod perchnogion eiddo'n gallu gosod i fusnesau dros dro (*pop-up*) ac i feddianwyr tymor byr dilys, h.y. busnesau tymhorol.
- 4.5. Mae esemptiadau ychwanegol rhag ardrethi ar gyfer rhai mathau o eiddo gwag neu ar gyfer eiddo dan werth ardrethol penodedig. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Adeiladau rhestredig, sydd wedi'u hesemptio nes y cânt eu meddiannu eto;
 - Adeiladau â gwerth ardrethol o lai na £2,600, sydd wedi'u hesemptio nes y cânt eu meddiannu eto;

- Eiddo a'r sawl sy'n talu'r ardrethi yn elusen neu'n ymddiriedolwyr elusen y bydd y defnydd nesaf a wneir ohono yn debyg o fod yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion elusennol;
 - Adeiladau a'r sawl sy'n talu ardrethi yn glwb cofrestredig at ddibenion Pennod 9 o Ran 13 i Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010 (clybiau chwaraeon amatur cymunedol) os bydd y defnydd nesaf a wneir ohono yn debygol o fod yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion y clwb hwnnw neu ddau neu fwy o glybiau gan gynnwys y clwb hwnnw;
 - busnes a'i berchennog yn gwmni sy'n destun gorchymyn dirwyn i ben a wnaed o dan Ddeddf Ansoffedd 1986 neu sy'n cael ei ddirwyn i ben yn wirfoddol dan y Ddeddf honno;
 - Busnes y mae'i berchennog yn gwmni sydd yn nwylo'r gweinyddwyr yn ôl ystyr paragraff 1 o Atodlen B1 i Ddeddf Ansoffedd 1986, neu sy'n destun gorchymyn gweinyddu a wnaed o dan y darpariaethau gweinyddu blaenorol yn ôl ystyr erthygl 3 o Orchymyn Deddf Mentergarwch 2002 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau trosiannol ac arbedion) 2003;
 - Busnes y mae gan ei berchennog hawl i feddiant yn unig yn rhinwedd ei swydd yn gynrychiolydd personol person ymadawedig.
- 4.6. Rhoddwyd y trefniadau presennol ar waith yn 2008. Cyn hyn, roedd rhyddhad o 100% ar gael ar gyfer eiddo gwag am gyfnod cychwynnol a rhyddhad o 50% wedi hynny. Pwrpas y diwygiadau yn 2008 oedd cynyddu nifer yr eiddo masnachol sydd ar gael i fusnesau newydd a busnesau cyfredol a thrwy hynny helpu i leihau lefelau rhent, a oedd yn gosod baich ar gystadleurwydd y DU. Y gred oedd mai'r ffordd orau o gyflawni hyn oedd lleihau'r rhyddhad ardrethi a oedd ar gael ar gyfer eiddo a oedd wedi bod yn wag am fwy na thri mis.

Gweithgarwch osgoi talu

- 4.7. Mae tystiolaeth i awgrymu nad yw'r drefn rhyddhad ardrethi ar eiddo gwag yn gweithio yn unol â'r bwriad gwreiddiol. Mae awdurdodau lleol wedi nodi mai'r dull mwyaf cyffredin o osgoi talu ardrethi yw meddiannu eiddo yn y tymor byr (42 diwrnod) yn rheolaidd a'r broses wedi'i 'llwyfannu' er budd swyddogion yr awdurdodau lleol fel y gall y sawl sy'n talu ardrethi hawlio cyfnodau di-dreth un ar ôl y llall.
- 4.8. Mae hawl y rheini sy'n talu ardrethi i gyfnod heb orfod talu yn dibynnu ar a yw'r eiddo wedi'i feddiannu neu beidio am o leiaf 42 diwrnod. Ar hyn o bryd, does dim diffiniad statudol o beth yw 'meddiannu' eiddo ac mae cyfraith achosion sylweddol ar y mater. Mae nifer o achosion diweddar hefyd wedi

canfod bod meddiannu wedi digwydd mewn nifer o achosion hyd yn oed os oedd y meddiannu am gyfnod byr iawn yn yr achosion hynny.⁸ Oherwydd hyn, mae rhai perchnogion wedi mynd ati i sefydlu meddiannaeth artiffisial am gyfnodau byr er mwyn bod yn gymwys am gyfnodau o beidio â gorfod talu ardrethi. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys warysau mawr neu adeiladau manwerthu sy'n cael eu defnyddio i gadw nifer bychan o focsys storio neu ddyfeisiau bluetooth. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried hyn yn weithgarwch osgoi nad yw er budd y cyhoedd gan y gall atal yr eiddo dan sylw rhag cael ei osod ar gyfradd gystadleuol i'w ddefnyddio at ddibenion mwy cynhyrchiol.

- 4.9. Mae tystiolaeth hefyd fod 'cwmnïau ffenics'⁹ yn cael eu sefydlu weithiau yn benodol er mwyn osgoi talu ardrethi ar eiddo gwag. Ar 9 Hydref 2015, gorchmynnodd yr Uchel Lys ym Manceinion i PAG Management Services Ltd gael ei ddirwyn i ben ar ôl canfod ei fod yn gweithredu cynllun a oedd yn dibynnu ar gamddefnyddio deddfwriaeth ansolfedd¹⁰.
- 4.10. Mae achosion sy'n ceisio manteisio ar y ddarpariaeth ddeddfwriaethol sy'n esemptio eiddo y mae'r defnydd nesaf a wneir ohono yn debygol o fod 'yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion elusennol'. Yn yr achosion hyn, mae'n ymddangos bod elusen wedi cytuno i rentu eiddo ar les tymor byr am rent bychan iawn neu rodd elusennol gan y landlord. Mae'r elusen yn honni bod yr eiddo'n cael ei ddefnyddio at ddibenion elusennol, ac yn cael ei 'feddiannu' am gyfnodau byr am resymau amrywiol fel digwyddiadau celf dros dro. Yn yr achosion hyn, bydd y rheini sy'n talu'r ardreth yn dadlau bod yr eiddo yn esempt rhag yr ardrethi eiddo gwag gan y bydd defnydd nesaf yr eiddo yn debygol o fyd yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion elusennol. Ond, mae tystiolaeth ar gael sy'n awgrymu bod yr hawliadau hyn yn anonest mewn sawl achos.
- 4.11. Mae rhai talwyr ardrethi'n defnyddio asiantau neu gwmnïau trydydd parti i'w cynghori ar sut i leihau eu hatebolrwydd a hwyluso trefniadau am ganran o'r ardrethi sy'n cael ei harbed. Mae eraill yn gwneud hyn eu hunain. Yn y naill achos neu'r llall, mae'r mathau yma o ymddygiad yn cael eu hystyried yn weithgareddau osgoi treth nad ydynt er budd y cyhoedd nac yn ysbryd y gyfraith.

⁸ Cyngor Dinas Sunderland v Stirling Investment Properties LLP a Makro Properties Ltd v Cyngor Nuneaton a Bedworth.

⁹ Termau yw 'cwmnïau ffenics' neu 'masnachu ffenics' sy'n cael eu defnyddio i ddisgrifio'r arfer o gynnal yr un busnes neu fasnach yn olynol drwy gyfres o gwmnïau a phob un ohonynt yn mynd yn ansolfent.

¹⁰ Datganiad i'r wasg gan y Gwasanaeth Ansolfedd 'Company involved in multi-million pound business rates avoidance closed down', 14 Rhagfyr 2016.
<https://www.gov.uk/government/news/company-involved-in-multi-million-pound-business-rates-avoidance-closed-down>

Ffyrdd o leihau achosion o osgoi

- 4.12. Isod mae nifer o syniadau sydd wedi cael eu hawgrymu i leihau'r gweithgareddau osgoi sy'n digwydd mewn perthynas ag eiddo gwag. Byddai Llywodraeth Cymru yn falch o gael barn wrth iddi ystyried pa becyn o newidiadau fyddai'n fwyaf effeithiol ar gyfer lleihau'r mathau yma o weithgarwch.
- 4.13. Prif nod yr opsiynau isod yw mynd i'r afael ag achosion o osgoi ardrethi ar eiddo gwag. Ond, mae'n cael ei gydnabod y gallai'r opsiynau arfaethedig fod â goblygiadau polisi ar gyfer ardrethi ar eiddo gwag yn fwy eang. Bydd unrhyw farn ar yr agwedd hon yn cael ei chroesawu hefyd.

Opsiwn 1: Cyfyngu ar y rhyddhad eiddo gwag ar gyfer pob dosbarth o eiddo i un cyfnod tri mis (heb fod yn ddiwydiannol) neu chwe mis (diwydiannol) o ryddhad bob blwyddyn. Byddai'n rhaid talu'r ardrethi llawn am weddill y flwyddyn ni waeth a fyddai'r eiddo'n wag neu wedi'i feddiannu neu beidio. Ni fyddai dim cyfnod ailosod o 42 diwrnod ac ni fyddai gan y rhai sy'n talu ardrethi hawl i wneud cais dro ar ôl tro yn ystod y flwyddyn.

- 4.14. Nod yr opsiwn hwn yw lleihau'r cymhelliant ariannol i feddiannu eiddo yn y tymor byr dro ar ôl tro i gael y rhyddhad mwyaf posibl. Byddai'n dal i ddarparu rhywfaint o ryddhad ac yn cadw ein polisi cyfredol o ddarparu rhyddhad am gyfnod hirach ar gyfer eiddo diwydiannol (6 mis).
- 4.15. Efallai y bydd yr opsiwn hwn yn atal perchnogion eiddo rhag prydlesu i fusnesau tymhorol neu i fusnesau dros-dro dilys. Gellid dadlau bod yr opsiwn hwn yn cyfyngu ar y cyfle i ddefnyddio eiddo masnachol mewn ffordd arloesol. Mae rhai busnesau yn teimlo bod eisoes yn well gan berchnogion eiddo osod i denantiaid mwy sefydlog. Ond, mae 91% o fusnesau sy'n cychwyn o'r newydd yng Nghymru yn goroesi am fwy na blwyddyn.
- 4.16. Heb gyfnod ailosod o 42 diwrnod, mae peryg y byddai gan berchnogion eiddo anodd ei osod lai o gymhelliant i sicrhau bod yr eiddo mewn cyflwr rhesymol. Gallai hefyd arwain at gynnydd yn y mathau eraill o osgoi fel masnachu ffenics. Mae cwmnïau ffenics sy'n cael eu sefydlu fel cyfrwng ar gyfer sawl math o weithgarwch osgoi treth yn fwy cyffredin yng nghanol dinasoedd, er bod enghreifftiau i'w gweld ledled Cymru.

Opsiwn 2: Cadw'r trefniadau presennol ar gyfer cyfnod cychwynnol o dri mis (heb fod yn ddiwydiannol) neu chwe mis (diwydiannol) heb orfod talu ardrethi. Cynyddu hyd y cyfnod 'ailosod' - lle mae eiddo'n cael ei feddiannu am dymor byr ac yn gallu cael cyfnod pellach heb dalu ardrethi - o feddiannu am 42 diwrnod i feddiannu am chwe mis.

4.17. Yn debyg i opsiwn un, byddai'r opsiwn hwn yn lleihau'r uchafswm rhyddhad y gallai eiddo gwag ei gael bob blwyddyn. Mae hyn yn lleihau'r cymhelliant ariannol i'r rheini sy'n talu ardrethi ymgymryd â gweithgarwch osgoi talu. Byddai cynyddu'r cyfnod 'ailosod' yn golygu y byddai eiddo yn cael rhagor o ryddhad dim ond os yw'r eiddo wedi cael ei feddiannu am o leiaf chwe mis. Os oes meddiannaeth artiffisial yn cael ei ddefnyddio, byddai'r opsiwn hwn yn golygu y byddai'n rhaid i berchnogion eiddo brofi bod yr eiddo wedi cael ei feddiannu am chwe mis (yn hytrach na 42 diwrnod) sy'n golygu bod mwy o berygl i'r sawl sy'n talu ardrethi o barhau i ymgymryd â gweithgarwch osgoi talu. Mae rhai rhanddeiliaid yn credu y byddai hyn yn ddigon i atal gweithgarwch osgoi. Bydd hyn hefyd yn rhoi mwy o amser i awdurdodau lleol ymchwilio a chael rhagor o dystiolaeth mewn achosion lle amheuir bod osgoi'n digwydd.

4.18. Mae gan yr opsiwn hwn anfanteision tebyg i opsiwn un o ran perchnogion eiddo sy'n awyddus i osod i denantiaid tymor-byr dilys a'r potensial i gynyddu'r mathau eraill o weithgarwch osgoi talu.

Opsiwn 3: Cadw'r trefniadau presennol ar gyfer cyfnod cychwynnol o dri mis (heb fod yn ddiwydiannol) neu chwe mis (diwydiannol) heb orfod talu ardrethi. Cynyddu hyd y cyfnod 'ailosod' - lle mae eiddo'n cael ei feddiannu am dymor byr ac yn gallu cael cyfnodau pellach heb dalu ardrethi - o feddiannu am 42 diwrnod i feddiannu am chwe mis ond gan leihau'r atebolrwydd i 50% heb gyfyngiadau amser.

4.19. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu dau brif newid. Byddai'n cynyddu'r cyfnod ailosod o'r 42 diwrnod presennol i chwe mis. Eto, ni fyddai hyn yn cael gwared â'r cyfle i gael gwared ag achosion o osgoi ond byddai'n cyfyngu ar faint y rhyddhad ardrethi ar eiddo gwag sydd ar gael i'r rheini sy'n ei hawlio fwy nag unwaith y flwyddyn.

4.20. Yn ogystal â manteision opsiwn 2 yn lleihau'r cymhelliant ariannol i ddefnyddio meddiannaeth artiffisial, byddai'r opsiwn hwn hefyd yn lleihau'r atebolrwydd ardrethi eiddo gwag i 50% (yn hytrach na 100%). Byddai hyn yn lleihau baich cyffredinol ardrethi eiddo gwag ar berchnogion eiddo nad ydynt yn gallu dod o hyd i denant dilys. Byddai lleihau ardrethi eiddo gwag i 50% o 100% yn lleihau'r cymhelliant ariannol i ymgymryd â gweithgarwch osgoi talu. Yn hytrach na thalu ffi sylweddol i asiant am gynllun osgoi talu, efallai y bydd y rhai sy'n talu ardrethi'n fwy tebygol o dalu'r ardrethi gostyngol i'r awdurdod lleol. Anfantaes yr opsiwn hwn yw y gallai fod yn gyfrwng llai effeithiol ar gyfer ceisio sicrhau bod eiddo gwag yn cael ei ddefnyddio unwaith eto.

4.21. Gellid ystyried amrywiadau i'r dull hwn. Mae Llywodraeth yr Alban yn rhoi 10% o ostyngiad mewn ardrethi i berchnogion eiddo gwag. Ond mae'n anodd pennu'r lefel orau o ryddhad a fyddai'n darbwyllo rhywun i beidio ag osgoi talu

ac eto'n annog defnydd gwell o eiddo gwag. Rydym yn croesawu eich barn ar y lefelau gwahanol o ryddhad a ddarperir ar gyfer cyfnodau amser gwahanol.

Opsiwn 4: Cyflwyno cysyniad “de minimis” ar gyfer meddiannaeth yn ystod y cyfnod 42 diwrnod.

- 4.22. Mae opsiwn 4 yn opsiwn hunangynhaliol y gellid ei roi ar waith ar ei ben ei hun neu ar y cyd â nifer o fesurau eraill. Y syniad sydd wedi'i awgrymu yw diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo Heb ei Feddiannu) (Cymru) 2008 i gyflwyno set o feini prawf fel, er enghraifft, bod yn rhaid i eiddo fod wedi'i feddiannu'n gyfan gwbl neu'n bennaf neu wedi'i feddiannu'n llesianol am y 42 diwrnod. Awgrymir y byddai hyn yn lleihau nifer yr achosion lle mae'n glir mai ychydig iawn o feddiannaeth sydd wedi bod neu lle mae meddiannaeth artiffisial wedi bod ar waith am 42 diwrnod er mwyn gallu hawlio cylchoedd o ryddhad. Byddem yn falch o gael eich barn am ddarparu diffiniad statudol o feddiannaeth ac, yn benodol, lle y gallai hyn, yn eich barn chi, arwain at anfanteision neu risgiau newydd i rannau eraill o'r system ardrethi annomestig ac i'r rhai sy'n talu ardrethi yn y ffordd briodol.

C12: Yn eich barn chi, pa opsiwn/opsiynau (1-4) i newid rhyddhad ardrethi ar eiddo gwag fyddai'n fwyaf effeithiol i leihau achosion o osgoi talu?

C13: Beth yw'r prif faterion sy'n codi o newid y cyfnod 'ailosod' (fel y nodir yn opsiynau 1 - 3) mewn perthynas â rhyddhad ardrethi ar eiddo gwag?

C14: A oes gennych chi unrhyw sylwadau i'w gwneud am leihau'r rhyddhad ardrethi eiddo gwag i 50% fel y nodir yn Opsiwn 3?

C15: O ran opsiwn 4, a phan fo eiddo'n cael ei feddiannu am gyfnod byr, ydych chi'n cytuno y dylid bodloni meini prawf ychwanegol am hyd y feddiannaeth honno er mwyn bod yn gymwys i gael cyfnodau pellach o ryddhad?

Esemptiad elusennol 'pan fydd yn cael ei ddefnyddio nesaf'

- 4.23. Mae esemptiad rhag ardrethi annomestig ar gael ar gyfer eiddo gwag os yw'r sawl sy'n talu ardrethi'n elusen /ymddiriedolwyr elusen neu glwb chwaraeon amatur cymunedol cofrestredig a'r eiddo, pan fydd yn cael ei ddefnyddio nesaf, yn debyg o fod yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion elusennol neu Glwb Chwaraeon Amatur Cymunedol. Credir bod yr esemptiad yn rhoi rhywfaint o warchodaeth i adeiladau cymunedol gwag a fyddai'n fwyaf tebygol o gael eu defnyddio bob amser at yr un diben.
- 4.24. Ond, mae nifer yr adeiladau sy'n cael eu defnyddio at ddibenion elusennol wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y degawd diwethaf, gyda'r sector elusennol yn arallgyfeirio i fyd adwerthu a masnach. Mae pryderon wedi cael eu codi am nifer yr achosion lle mae'r esemptiad hwn yn cael ei ddefnyddio'n fwy aml ar gyfer warysau a mannau adwerthu gwag yn yr hirdymor fel ffordd o osgoi ardrethi eiddo gwag.
- 4.25. Yn ein barn ni, mae'n bosib nad yw'r esemptiad hwn yn cael ei roi ar waith yn unol â'i fwriad gwreiddiol. Hoffem gael eich barn ynghylch a ddylai'r esemptiad hwn barhau, a ddylid cael gwared ag ef neu a ddylid rhoi pwerau disgresiwn i awdurdodau lleol roi'r esemptiad. Gallai elfen o ddisgresiwn helpu i ddiogelu achosion lle mae cymunedau'n defnyddio adeilad yn barhaus ac yn gyfreithlon yn unol â bwriad y polisi.
- C16: Beth yw eich barn am gadw, tynnu neu newid y darpariaethau deddfwriaethol sy'n esemptio eiddo gwag rhag ardrethi pan fo'r sawl sy'n talu'r ardrethi yn elusen neu'n Glwb Chwaraeon Amatur Cymunedol, a'r eiddo, pan fydd yn cael ei ddefnyddio nesaf, yn debygol o gael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion elusennol?**

C17: A oes unrhyw opsiynau eraill a allai leihau'r math yma o osgoi?

5. RHYDDHAD ELUSENNOL GORFODOL

- 5.1. Mae gan elusennau hawl i ryddhad ardrethi gorfodol o 80% o'r ardreth sydd i'w thalu ar gyfer eiddo sy'n cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion elusennol. Mae'r un rheolau'n berthnasol i Glybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol. Bwriad y rhyddhad yw lleihau'r rhwystrau ariannol i fudiadau elusennol sy'n cynnal gweithgarwch sy'n cyfrannu at les cymdeithasol ac economaidd dinasyddion. Ym mis Ebrill 2013, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar effeithiolrwydd rhyddhad elusennol a dod i'r casgliad y dylai'r rhyddhad hwn barhau¹¹.
- 5.2. Yn ôl y dystiolaeth rydym wedi'i chasglu am fater osgoi ardrethi annomestig, mae'n glir bod rhyddhad elusennol gorfodol yn cael ei hawlio'n anonest mewn rhai achosion. Mae tystiolaeth i awgrymu bod cwmnïau'n cysylltu ag elusennau a'u bod yn cael eu hannog i ymrwymo i gytundebau tenantiaeth a fyddai'n rhyddhau landlordiaid o'r gofyniad i dalu ardrethi annomestig yn llawn. Bydd elusennau'n prydlesu eiddo gwag gan berchennog am swm bychan yn gyfnewid am rodd elusennol a chytundeb i symud allan o'r eiddo ar yr rybudd.
- 5.3. Mae cyfraith achosion¹² ar gael sy'n sefydlu bod yn rhaid i elusen, er mwyn bod â hawl i ryddhad elusennol gorfodol, feddiannu adeilad a'i fod yn gwneud defnydd helaeth o'r adeilad at ddibenion elusennol. Deallwn nad felly mae pethau bob tro. Ond mae ymchwilio i hawliadau anonest yn gallu arwain at gostau gweinyddol sylweddol neu anghymesur i awdurdodau lleol.
- 5.4. Mae'r Comisiwn Elusennau'n ymwybodol o fater elusennau ffug yn osgoi talu trethi ac mae wedi ymdrechu i sicrhau bod elusennau'n ymwybodol o'r gyfraith yn y maes hwn drwy dynnu sylw at y risgiau y gallent fod yn eu cymryd wrth ymrwymo i'r trefniadau a ddisgrifir uchod¹³.
- 5.5. Os nad yw elusen yn gwneud defnydd digonol o eiddo at ddibenion elusennol i gael rhyddhad ardrethi annomestig, mae perygl y bydd yn dod yn atebol i dalu'r ardrethi annomestig yn llawn. Hefyd, mae perygl y bydd ymddiriedolwyr yr elusen yn cael eu hunain yn atebol yn bersonol os nad ydynt wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r defnydd arfaethedig o'r adeilad yn y

¹¹Rhyddhad Ardrethi Busnes i Elusennau, Mentrau Cymdeithasol ac Undebau Credyd, Ebrill 2013. <https://businesswales.gov.wales/sites/business-wales/files/documents/News%20and%20Events/Consultation%20-%20Business%20rates%20relief%20for%20charities%20%26%20social%20enterprises.pdf>

¹² Public Safety Charitable Trust Limited v's South Cambridgeshire, Milton Keynes and Cheshire West and Chester Councils and Kenya Aid Programme v Sheffield City Council

¹³ Datganiad i'r Wasg: Y Comisiwn Elusennau, Mai 2013. <https://www.gov.uk/government/news/commission-warns-charities-on-business-rates-relief>

dyfodol cyn ymrwymo i gytundeb â landlord ac yn ceisio hawlio rhyddhad nad yw ar gael.

C18: A allai Llywodraeth Cymru a/neu awdurdodau lleol ddilyn unrhyw fesurau ychwanegol er mwyn sicrhau bod achosion o osgoi rhyddhad ardrethi elusennol gorfodol yn digwydd yn llai aml?

6. RHEOLAU CYFFREDINOL AR ATAL OSGOI

- 6.1. Mae darnau amrywiol o ddeddfwriaeth yn y DU sy'n ymwneud â threthi yn cynnwys Rheol Gyffredinol ar Atal Osgoi¹⁴ (GAAR) sy'n rhoi mwy o bwerau i awdurdodau bilio ac mae'n berthnasol i'r rheini sy'n mynd ati i osgoi talu eu hatebolrwydd treth a'r rheini sy'n hyrwyddo cynlluniau osgoi talu treth.
- 6.2. Mae Rheol Gyffredinol ar Atal Osgoi (GAAR) wedi'i rhoi ar waith yn barod ar gyfer y trethi sydd newydd gael eu datganoli sy'n ymwneud â'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru o fis Ebrill 2018 ymlaen. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn barn am gyflwyno Rheol Gyffredinol ar Atal Osgoi ar gyfer ardrethi annomestig yng Nghymru.
- 6.3. Mae'r referniw sy'n cael ei godi drwy ardrethi annomestig yn cael ei ddefnyddio i helpu i dalu am wasanaethau cyhoeddus er budd cymunedau Cymru. Barn Llywodraeth Cymru yw bod osgoi atebolrwydd i dalu ardrethi'n tanseilio'r gwasanaethau hynny, a'i fod yn annheg ac yn anghyfiawn. Mae sefydlu trefniadau cadarn i fynd i'r afael â'r mater hwn yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.
- 6.4. Prif nod Rheol Gyffredinol ar Atal Osgoi ar gyfer ardrethi annomestig fyddai sicrhau bod pawb sy'n talu ardrethi'n talu'u cyfran deg a bod y system yn gweithredu yn ysbryd y ddeddfwriaeth, a'i bwriad. Yr amcan fyddai atal trethdalwyr rhag ymrwymo i drefniadau camdriniol ac atal asiantaethau masnachol rhag hyrwyddo'r cyfryw drefniadau.
- 6.5. Byddai cyflwyno Rheol Gyffredinol ar Atal Osgoi yn rhoi cyfle i'r awdurdodau perthnasol wrthsefyll y fantais dreth o drefniadau osgoi "artiffisial", ar sail egwyddorion osgoi trethi. Byddai defnyddio'r cyfryw bwerau'n effeithiol yn gofyn am adnoddau ac arbenigedd yn yr awdurdodau lleol. Yn y pen draw, y llysoedd fyddai'n barnu a oedd y prawf wedi'i fodloni.

C19: A yw'n briodol sefydlu Rheol Gyffredinol ar Atal Osgoi yng Nghymru a fyddai'n galluogi awdurdodau i ddal rhyddhadau ac esemptiadau yn ôl os yw'r awdurdodau'n gallu dod i'r casgliad rhesymol mai prif bwrpas trefniadau'r sawl sy'n talu ardrethi yw osgoi ardrethi annomestig?

C20: Beth yw'r materion allweddol y byddai angen eu hystyried wrth sefydlu Rheol Gyffredinol ar Atal Osgoi ar gyfer ardrethi annomestig yng Nghymru?

¹⁴ Er enghraifft, Rhan 5 o Ddeddf Cyllid 2013 mewn perthynas â threth incwm, treth ar enillion cyfalaf, treth etifeddiant, treth gorfforaeth.

7. MESURAU ANNEDDFWRIAETHOL I WELLA CYDYMFFURFIO

Asiantaethau'n cydweithio

- 7.1. Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno cael barn am sut y gall awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd a rhannu arbenigedd ond hefyd sut y gallwn hwyluso perthnasoedd gwaith mwy effeithiol gydag Adrannau Llywodraeth y DU a sefydliadau eraill. Mae nifer o ddatblygiadau ar y gweill ar hyn o bryd sy'n ceisio meithrin gallu yn y maes hwn. Mae'r ymgynghoriad hwn yn dymuno cael barn ynghylch pa mor effeithiol yw'r datblygiadau hyn a pha gamau eraill y gellid eu cymryd i wella cydymffurfio o ran ardrethi annomestig.
- 7.2. Mae Deddf Menter 2016 wedi darparu porth rhannu data rhwng Asiantaeth y Swyddfa Brisio ac awdurdodau lleol mewn perthynas â'r rhestrau ardrethi lleol, a chyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r rhestr ardrethi ganolog. Mae'r trefniant rhannu-data gwell hwn yn dechrau helpu awdurdodau gyda'u gweithgareddau cydymffurfio, gorfodi, bilio a chasglu.
- 7.3. Ar hyn o bryd, mae memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng y Comisiwn Elusennau a nifer o awdurdodau lleol gan gynnwys Cyngor Dinas Rhydychen, Cyngor Bwrdeistref Broxbourne, a'r rheini sy'n cyfrannu at Rwydwaith Gwybodaeth Swydd Caint. Mae'r cytundebau'n canolbwyntio ar helpu'r awdurdodau lleol i fynd i'r afael â mater osgoi talu, er enghraifft, lle mae landlord yn gosod eiddo masnachol am rent bychan i elusen er mwyn manteisio ar y gostyngiad gorfodol o 80% yn yr ardrethi busnes y mae elusennau'n ei gael.
- 7.4. Mae enghreifftiau i'w cael o awdurdodau lleol sy'n cydweithio yn rhannu adnoddau, arbenigedd, gwybodaeth a chostau ar draws ffiniau i fynd i'r afael â mater osgoi. Mae Rhwydwaith Gwybodaeth Swydd Caint a Chanolfan Atal Twyll Llundain wedi cyfuno adnoddau ac arbenigedd er mwyn ymchwilio i dwyll a mater osgoi ar draws ffiniau awdurdodau lleol. Mae atebion TG ar y cyd wedi cael eu caffael sy'n dod â setiau data lluosog at ei gilydd sy'n gallu canfod unrhyw anghysondeb a all olygu bod twyll neu osgoi yn digwydd.
- 7.5. Mae enghreifftiau hefyd o sefydliadau eraill a chyrff rheoleiddio sy'n herio gweithgarwch osgoi talu ardrethi annomestig drwy'r llysoedd. Yn dilyn ymchwiliad dan arweiniad y Gwasanaeth Ansofedd, gorchmynnodd yr Uchel Lys ym Manceinion i gwmni ymgynghori gael ei ddirwyn i ben ar ôl canfod ei fod wedi rhedeg cynllun osgoi talu trethi a oedd yn dibynnu ar gamddefnyddio

deddfwriaeth ansolfedd. Cafodd y gorchymyn ei atal dros dro ar ôl i'r cwmni apelio. Ond cafodd yr apêl honno ei atal yn ffurfiol ar gais y cwmni¹⁵.

Adnoddau i ymchwilio i achosion o osgoi

- 7.6. Mae awdurdodau lleol wedi mynegi pryderon yn y gorffennol ynglŷn â chael yr adnoddau angenrheidiol o ran swyddogion i ymchwilio'n llawn i achosion o osgoi ardrethi annomestig. Oherwydd bod yr holl refeniw o ardrethi annomestig yn cael ei gyfuno a'i aildosbarthu'n genedlaethol, mae llywodraeth leol yn dadlau bod llai o fudd ariannol i'w gael wrth neilltuo adnoddau i weithgarwch a fyddai'n gwella'r broses gydymffurfio.
- 7.7. Byddai ymdrechion i leihau nifer yr achosion o osgoi yn cynyddu'r incwm sydd ar gael i'w wario ar wasanaethau lleol ymhob cymuned. Ond, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall y peirianwaith ar gyfer aildosbarthu leihau maint y budd a welir gan awdurdodau sydd wedi neilltuo adnoddau i ymchwiliadau costus. Gellid darparu cymorth yn y dyfodol mewn sawl ffordd.
- 7.8. Mae Llywodraeth Cymru yn agored i ymchwilio i ddull ennill-cyfran: pan fo camau cadarnhaol gan lywodraeth leol (fel mynd i'r afael ag osgoi a gwella cyfraddau casglu) yn arwain at gasglu rhagor o refeniw. Gellir ymchwilio i opsiynau ar gyfer rhannu'r refeniw hwn rhwng y trefniadau cenedlaethol a'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y camau cadarnhaol.
- 7.9. Opsiwn arall posibl yw ymchwilio i drefniadau tebyg sy'n bodoli yn Lloegr lle mae awdurdodau'n gallu rhannu costau cyfreithiol â Llywodraeth y DU mewn achosion newydd sy'n cael eu dwyn gerbron y llysoedd.
- 7.10. Hefyd, mae gan Lywodraeth Cymru Gronfa Buddsoddi i Arbed a all ddarparu cyllid drwy fenthyciadau i'r sector cyhoeddus lle mae prosiectau angen arian ar y cychwyn ac a fydd yn creu arbedion neu incwm ychwanegol yn y dyfodol. Mae gan y gronfa gyllideb o sawl miliwn ar gael bob blwyddyn. Byddai Llywodraeth Cymru yn fodlon ystyried unrhyw geisiadau am gyllid a fyddai'n helpu i leihau nifer yr achosion o osgoi. Mae'r benthyciadau'n ddi-log ac mae'r ad-daliadau'n cael eu pennu fesul achos gan ystyried yr arbedion posibl neu broffiliau incwm y prosiect. Mae'r gronfa'n cynnal cylch ceisiadau blynyddol ond gellir cyflwyno cynigion i'r tîm i'w hasesu ar unrhyw adeg yn y flwyddyn. Caiff unrhyw un sydd â diddordeb mewn defnyddio'r gronfa hon anfon e-bost at y tîm yn: I2Sinvestmentfund@gov.wales

¹⁵ Datganiad i'r Wasg gan y Gwasanaeth Ansolfedd, Rhagfyr 2016
<https://www.gov.uk/government/news/company-involved-in-multi-million-pound-business-rates-avoidance-closed-down>

- 7.11. Mae'r tudalennau perthnasol ar we sy'n cynnwys nodiadau canllaw a'r Datganiad o Ddiddordeb i'w cael yn:
<http://gov.wales/topics/improving-services/invest-to-save/?lang=cy>

C21: Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno cael eich barn am y modd y gellid cefnogi awdurdodau lleol a sefydliadau eraill i gynnal ymchwiliadau a lleihau ymddygiad osgoi.

8. Y GYMRAEG

- 8.1. Gofynnir am sylwadau am yr effeithiau (cadarnhaol neu negyddol) y byddai'r cynigion hyn ar gyfer ymdrin ag achosion o osgoi yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 8.2. Yn ogystal â hynny, rydym yn gofyn am sylwadau ynghylch a fyddai modd ffurfio neu ddiwygio'r cynigion fel eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol neu lai o effeithiau negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

C22: Hoffai Llywodraeth Cymru wybod eich barn am yr effaith y byddai'r cynigion hyn yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a**
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

C23: Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig fel ei fod yn cael:

- i) effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a**
- ii) sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a'r gofyniad i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

9. CASGLIAD

- 9.1. Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu fframwaith cyllid Llywodraeth Leol er mwyn sicrhau y bydd yn diwallu anghenion y dyfodol wrth i wasanaethau lleol esblygu. Ein blaenoriaethau wrth adolygu'r system gyllid yw sicrhau rhagor o gadernid i awdurdodau lleol, tegwch i ddinasyddion a busnesau, a chyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau lleol hollbwysig.
- 9.2. Fel rhan o'r newidiadau ehangach hyn, y bwriad yw cyflwyno nifer o newidiadau deddfwriaethol a chynigion polisi er mwyn ymdrin ag achosion o osgoi ardrethi annomestig. Bydd y cynigion yn ceisio mynd i'r afael â materion cywirdeb, cysondeb a thryloywder tra hefyd yn ceisio lleihau'r baich gweinyddol ar fusnesau a swyddogion awdurdodau lleol.

10. Y CAMAU NESAF

- 10.1. Bydd yr ymgynghoriad yn para am gyfnod o 12 wythnos. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd gwaith ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid yn digwydd er mwyn edrych yn llawn ar oblygiadau ymarferol y syniadau sydd yn y ddogfen hon, yn enwedig yr ystyriaethau ariannol, gweinyddol a deddfwriaethol.
- 10.2. Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, bydd pob ymateb yn cael ei ddadansoddi a'i ddefnyddio fel sail i'n gwaith yn ystyried pa mor effeithiol yw'r gwahanol syniadau. Heblaw am y newidiadau deddfwriaethol sydd wedi'u cynllunio i'w cynnwys yn y Bil Llywodraeth Leol, byddwn yn cyhoeddi unrhyw newidiadau polisi eraill yn yr hydref. Wrth geisio rhoi unrhyw newidiadau polisi ar waith, byddwn ni'n darparu digon o rybudd i'r rheini sy'n talu ardrethi fel eu bod yn gallu gwneud gwaith cynllunio ariannol ac fel bod awdurdodau lleol a'u darparwyr meddalwedd yn cael digon o amser i ymgorffori unrhyw newidiadau yn eu prosesau bilio.

C3: Ydych chi'n cytuno bod cosb sifil ar lefel 1 ar y raddfa safonol (£200 ar hyn o bryd) yn rhesymol ac yn gymesur mewn achosion lle mae'r sawl sy'n talu ardrethi wedi peidio â hysbysu, wedi cadw gwybodaeth yn ôl yn fwriadol neu wedi darparu gwybodaeth ffug yn fwriadol?

C4: Ydych chi'n cytuno y dylai'r rheini sy'n talu ardrethi a thrydydd partion orfod darparu gwybodaeth ar gais awdurdod lleol, er mwyn dilysu atebolrwydd i dalu ardrethi.

C5: Ydych chi'n cytuno bod 21 diwrnod yn ddigon o amser i'r rhai sy'n talu ardrethi a sefydliadau trydydd parti allu darparu gwybodaeth y mae awdurdod lleol wedi gofyn amdani am eiddo annomestig?
C6: Ydych chi'n cytuno bod cosb sifil ar lefel 1 ar y raddfa safonol (£200 ar hyn o bryd) yn rhesymol ac yn gymesur mewn achosion lle mae sefydliad wedi cadw gwybodaeth yn ôl yn fwriadol neu wedi darparu gwybodaeth ffug yn fwriadol?

C7: Ydych chi'n cytuno bod y trefniadau diogelu sy'n cael eu cynnig (sef cael caniatâd gan dribiwnlys a rhoi 24 awr o rybudd) yn briodol i'r drefn i awdurdodau lleol archwilio eiddo annomestig?

C8: Ydych chi'n cytuno bod cosb sifil ar lefel 1 ar y raddfa safonol (£200 ar hyn o bryd) yn rhesymol ac yn gymesur mewn achosion lle mae person yn mynd ati'n fwriadol i atal archwiliad neu i achosi oedi mewn perthynas â'r archwiliad?

C9: Beth yw manteision ac anfanteision cael awdurdodau lleol yn cyhoeddi rhestr o eiddo sy'n cael rhyddhad gorfodol a dewisol? A fyddai hyn yn gwella lefel y tryloywder a chydymffurfio?

C10: Pa fathau o wybodaeth y dylid, neu na ddylid, eu cyhoeddi?

C11: Beth yw'r materion diogelu data, a sut gellid mynd i'r afael â'r rhain?

C12: Yn eich barn chi, pa opsiwn/opsiynau (1-4) i newid rhyddhad ardrethi ar eiddo gwag fyddai'n fwyaf effeithiol i leihau achosion o osgoi talu?

C13: Beth yw'r prif faterion sy'n codi o newid y cyfnod 'ailosod' (fel y nodir yn opsiynau 1 - 3) mewn perthynas â rhyddhad ardrethi ar eiddo gwag?

C14: A oes gennych chi unrhyw sylwadau i'w gwneud am leihau'r rhyddhad ardrethi eiddo gwag i 50% fel y nodir yn Opsiwn 3?

C15: O ran opsiwn 4, a phan fo eiddo'n cael ei feddiannu am gyfnod byr, ydych chi'n cytuno y dylid bodloni meini prawf ychwanegol am hyd y feddiannaeth honno er mwyn bod yn gymwys i gael cyfnodau pellach o ryddhad?

C16: Beth yw eich barn am gadw, tynnu neu newid y darpariaethau deddfwriaethol sy'n esemptio eiddo gwag rhag ardrethi pan fo'r sawl sy'n talu'r ardrethi yn elusen neu'n Glwb Chwaraeon Amatur Cymunedol, a'r eiddo, pan fydd yn cael ei ddefnyddio nesaf, yn debygol o gael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion elusennol?

C17: A oes unrhyw opsiynau eraill a allai leihau'r math yma o osgoi?

C18: A allai Llywodraeth Cymru a/neu awdurdodau lleol ddilyn unrhyw fesurau ychwanegol er mwyn sicrhau bod achosion o osgoi rhyddhad ardrethi elusennol gorfodol yn digwydd yn llai aml?

C19: A yw'n briodol sefydlu Rheol Gyffredinol ar Atal Osgoi yng Nghymru a fyddai'n galluogi awdurdodau i ddal rhyddhadau ac esemptiadau yn ôl os yw'r awdurdodau'n gallu dod i'r casgliad rhesymol mai prif bwrpas trefniadau'r sawl sy'n talu ardrethi yw osgoi ardrethi annomestig?

C20: Beth yw'r materion allweddol y byddai angen eu hystyried wrth sefydlu Rheol Gyffredinol ar Atal Osgoi ar gyfer ardrethi annomestig yng Nghymru?

C21: Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno cael eich barn am y modd y gellid cefnogi awdurdodau lleol a sefydliadau eraill i gynnal ymchwiliadau a lleihau ymddygiad osgoi.

C22: Hoffai Llywodraeth Cymru wybod eich barn am yr effaith y byddai'r cynigion hyn yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a**
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

C23: Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig fel ei fod yn cael:

- i) effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a**
- ii) sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a'r gofyniad i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Mae ymatebion i ymgynghoriadau'n debygol o gael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb fod yn ddienw, ticiwch yma: